

Lefel 3: Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori

Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster?

Mae'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn cyfuno gwybodaeth ddamcaniaethol o'r maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant â'r sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithio yn y sector.

Lluniwyd y cymhwyster yn bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn addysg bellach sydd:

- â diddordeb mewn gweithio mewn rôl gefnogi yn y sector gofal plant
- yn astudio, neu sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- yn dychwelyd i'r gweithle ar ôl seibiant gyrfa sydd am adnewyddu eu gwybodaeth a'u sgiliau yn y sector Gofal Plant.

Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr sydd wedi ennill cymhwys Lefel 2 gan gynnwys y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori neu nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am y sectorau gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant.

Cynghorir dysgwyr nad ydynt eto wedi cyflawni cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd yn gryf i wneud hynny cyn y cymhwyster hwn neu ar yr un pryd.

Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael gwaith a/neu i symud ymlaen mewn gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

Mae'n cyfuno'r ddwy uned ymarfer sy'n cael eu hasesu yn y gweithle â gwybodaeth ddamcaniaethol ychwanegol. Mae elfen ymarfer y cymhwyster hwn yn adlewyrchu cynnwys y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer.

Drwy gwblhau'r cymhwyster hwn, bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn:

- deall, ac yn gallu defnyddio wrth ymarfer, yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sail i ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant
- deall, ac yn gallu defnyddio wrth ymarfer, dulliau plant-ganolog i ofal, chwarae a dysgu
- gallu hybu a chefnogi datblygiad plant drwy eu hymarfer eu hunain
- gallu gwerthuso ymchwil a damcaniaethau i gefnogi ymarfer
- ymwybodol o bolisiâu allweddol yn y sector a sut mae'r rhain yn effeithio ar ddatblygu a darparu gwasanaethau
- gallu gweithio mewn partneriaeth â phlant, eu teuluoedd, gofalwyr ac amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- gallu myfyrio ar ymarfer i barhau i wella
- gallu defnyddio amrywiaeth o dechnegau datrys problemau
- gallu defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eu rôl.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr gwblhau o leiaf 700 awr o leoliad gwaith er mwyn cyflawni'r cymhwyster hwn.

Strwythur y cymhwyster

Cymhwyster seiliedig ar gredydau yw'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ac mae'n galluogi dysgwyr i gyfuno unedau gorfodol ag amrediad eang o unedau opsiynol yn dibynnu ar eu lleoliad gwaith neu ddyheadau gyrfa at y dyfodol. Rhaid i ddysgwyr gwblhau cyfanswm o 72 o gredydau i gyd. Yr unedau gorfodol yw:

Uned	Teitl yr Uned	Asesu	Credyd
300	Hybu ymarfer craidd ym maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant	Mewnol	18
301	Hybu chwarae, dysgu, twf a datblygiad	Mewnol	5
302	Hybu maeth a hydradiad yn y blynyddoedd cynnar	Mewnol	4
303	Ymateb i afiechyd, pla/haint, clefyd ac imiwneiddio mewn plentyndod	Mewnol	3
Gydag o leiaf un o'r canlynol:			
304	Hybu gofal plant 0-2 oed	Mewnol	4
305	Hybu gofal plant 2-3 oed	Mewnol	4
306	Hybu gofal plant 3-7 oed	Mewnol	6
Ynghyd â'r uned theori orfodol ganlynol			
330	Egwyddorion a damcaniaethau sy'n dylanwadu ar ofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yn yr 21ain ganrif yng Nghymru	Allanol	19
331	Ymchwilio i faterion cyfredol mewn gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru	Allanol	3

Asesu

Caiff y cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ei asesu drwy 70% o asesiad mewnol a 30% o asesiad allanol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol yn llwyddiannus:

- cyfres o dasgau wedi'u gosod yn allanol a'u marcio'n fewnol
- portffolio o dystiolaeth
- trafodaeth â'u haseswr
- arholiad allanol
- ymchwiliad estynedig wedi'i osod a'i farcio'n allanol.

Gellir llwytho pecyn asesu yn rhoi manylion y gofynion asesu mewnol o'r tab dogfennau allweddol a deunyddiau cefnogi ar dudalen y cymhwyster ar wefan

www.dysguiechydagofal.cymru.

Beth y gallai'r cymhwyster hwn arwain ato?

Mae cwblhau'r cymhwyster Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori yn darparu sylfaen addas ar gyfer astudio blynyddoedd cynnar a gofal plant drwy amrediad o gyrsiau addysg uwch, neu brentisiaethau.

Pwyntiau Tariff UCAS

Gradd	Pwyntiau
Rhagoriaeth*	112
Rhagoriaeth	96
Teilyngdod	64
Llwyddiant	32

Gwybodaeth bellach

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yn www.dysguiechydagofal.cymru